Gorphenaf 14 1911

# Barddoniaeth

Anfoner yr holl gynnyrchion Barddonol i ofal y Golygydd, y PARCH. W. P. WILLIAMS, D.D., Landore.

4.169

## DYMUNIAD DA I'R BRENIN.

Mawr lwyddiant a ddymunaf
  I'r Brenin Sior yn awr,
Boed yntau'n wir deyrngarol
  I Frenin nef a llawr;
Ac ynddo ymddiried
  Am gyfarwyddyd llawn,
Beth bynag all ymgodi,
  Fel bo'n gweithredu'n iawn.

Myfyrio'i gyfraith sanctaidd
  A'i gwna yn gadarn un
I lywodraethu'r deyrnas
  Yn ofn Duw ei Hun;
Gan geisio am gyfiawnder
  Trwy'r Ymerodraeth fawr,
Fel na bo'r cry'n gormesu,
  Ond helpu'r gwan ar lawr.

Mae'r brenin dan ei goron
  Yn teimlo pwys ei swydd,
Ei gysur yw fod ganddo
  Fawr lu yn caru'i lwydd;
Arosed drwy ei ddyddiau
  Yn mharch ei ddeiliaid oll,
Hir oes i wisgo'r goron
  Yn llawn heb berl yn ngholl.

Yr hoff Frenines hefyd,
  A'i bywyd llawn o swyn,
A fo i'r Brenin beunydd
  Yn wir gymhares fwyn;
Cyd-ddwyn a'u gilydd byddont
  Heb deimlo'r iau yn drom,
A'u hanwyl blant fo'n tyfu
  Heb beri iddynt siom.

I'r Brenin Sior a'i deulu
  Boed cysur a mwynhad
Wrth geisio lles y werin
  Yn mhob rhyw dref a gwlad;
Ei holl gynghoriaid hefyd
  Fo'n bwyllog wyth y llyw,
Yn hwylio llong deddfwriaeth
  Wrth reol gair ein Duw.

Byw'n wastad wrth ewyllys
  Ei Frenin mawr a'i Dduw,
Fo'r brenin Sior y Pumed
  Heb wyro tra fo byw;
A brenin tangnefeddus
  A fyddo fel ei dad,
A'i fryd ar lunio heddwch
  Heb feth rhwng gwlad a gwlad.

Ei nerth o hyd fydd teimlo
  Llaw'r Arglwydd gydag ef,
Ac yntau'n pwyso beunydd
  Ar gymhorth pur y nef;
Boed ffyddlawn hyd y diwedd,
  Caiff urddas mwy'n y man,
Hardd goron fawr y bywyd
  Roi'r iddo'n fythol ran.

Ti, Frenin y Breninoedd,
  A Llywiwr mawr y byd,
Boed dy amddiffyn sanctaidd
  Ar Brydain Fawr o hyd;
A phob rhyw drefedigaeth
  Sydd ini'n fach a mawr,
O cadw ni a'n brenin,
  Dduw, cadw ni bob awr.

Caerdydd. WM. DAVIES (Cymry Fydd).

x2052645721